

# CERDDI YSGOL THOMAS JONES

## efo Mei Mac

Dwi mewn cariad  
Ond 'does dim esboniad.  
A oedd hyn yn gamgymeriad?

*Mari Owen*

'Dyw perffeithrwydd ddim yn bodoli  
Ond i ti rwy'n dyfalbarhau,  
Ffaeledig wyf, ansicr iawn,  
Ond fe fyddwn yn iawn ein dau.

*Sorcha Roberts*

Mae 'nghalon fel papur gwyn,  
Mae'n gallu torri'n syth,  
Wnes ti anghofio hyn  
A swsio rhywun hyll!

*Ben Parker*

No halo,  
No feathered wings,  
No robe  
None of them things,

No palace,  
No gold,  
No Cleopatra  
Nothing that old.

No high heels  
No hot wheels,  
None of the above  
Just love.

*Jess Kelly*

Mae 'nghalon yn dyrnu fel peiriant  
Pan fyddi di'n cydio'n fy llaw,  
A dod ag atgofion mae dy enw  
Ohonom yn chwerthin yn y glaw.

Mae dy lygaid yn fy nghyfareddu  
Pan wyt ti'n edrych arnaf,  
Ti'n gwneud i 'nghalon i ferwi  
Am mai ti yw'r hogan ddelaf.

*Dewi Hywel*

Hebda ti yma yn fy mywyd  
Rwy'n teimlo fel na fedra i glywed,  
Ac fe fydd y glaw yn disgyn bob dydd,  
Ac yna fe fydda i'n colli ffydd.

*Lydia Challinor*

'Does gen i ddim esboniad i'r teimlad ddim mwy  
Rwyt ti'n fy nhynnu i mewn ac yn fy ngadael i mi fynd,  
Sgen i ddim clem pam dwi'n aros efo chdi,  
Pan wyt yn gafael yn fy nghalon yn llawer rhy dynn.

Rwy'n aros, aros, tra rwyt ti wrth ei hymyl hi,  
Penderfyna cyn iddo fynd yn rhy hir.  
Fedra i ddim byw yn caru chdi fel hyn,  
Ond fedra i ddim dychmygu bywyd heb dy ddal di'n dynn.

Mae bywyd yn fyr, gwna iddo gyfri,  
Penderfyna cyn fy ngadael yn wag,  
Heb galon yn curo na'n teimlo bellach,  
Dos – dwi'n siŵr y bydd o'n reit braf.

*Anna Roberts*

I saw you with her in the rain  
Standing there being vain,  
You had no care in the world,  
For you had her hand as she twirled and twirled.

I saw you with her yet again,  
Standing there still in the rain,  
She had no care in the world,  
As she kissed you as it poured and poured.

*Catrin Thomas*

Pa eiriau all ei ddisgrifio,  
cariad?  
Pam na alla i esbonio'r teimlad hwn,  
sydd  
mor newydd  
i mi.

*Llinos Evans*

Dwi'n cerdded drwy'r goedwig  
Ac yn clywed yr adar yn canu  
Mae popeth yn gwneud synnwyr,  
Am mai chdi dwi i fod i'w garu.

Mae fy mhroblemau wedi diflannu  
Mae fy nghariad yn gadarn a chryf  
Byd dim i 'ngwneud i deimlo'n ddrwg,  
Mor hapus y ddau ohonom a fydd.

Paid â thorri fy nghalon  
Mae'n chwalu mor hawdd,  
Cariad i fyw am byth  
Yw beth dwi ei angen nawr.

Felly sut wyt ti'n teimlo?  
A'm calon wedi malu?  
Gobeithio dy fod yn fodlon  
Achos fi sy'n gorfod talu.

*Bethany Foyston*

Agor fy ngheg a geiriau gwag,  
Dim byd alla i wneud wrth i ti fynd,  
Gofyn a gofyn i ti aros  
Ti oedd fy unig ffrind.

Rwyf dy angen yn fy mywyd  
I arwain y ffordd a dal fy llaw,  
Ar goll heb dy lais yn fy nghlust  
Atgofion cusanau yn y glaw.

Chdi oedd popeth, fy myd i gyd,  
Llenwi fy nghalon â chariad cynnes  
Ond yn dy le ,mae'n wag ac oer,  
A hiraeth poenus yn fy mynwes.

*Cari Thomas*

Love is a walk in the moonlight  
The stars shining bright.  
Love is a three hour phone call  
Giggling through it all.  
Love is a gut-wrenching feeling  
That leaves your heart reeling.  
Love is an elderly couple  
Together, forever, and double.  
Love is a scrapbook  
Of the pictures we took.  
Love is when you finally say  
"I love you, and that's how it will stay."

*Emma Hughes*

Dwi'n meddwl madanat trwy'r dydd a nos  
Yn llonydd ac yn berffaith.  
Siaradaf â thi ond heb gael ateb  
Pan wyt yn edrych arnaf i.

Dwi'n wirion yn meddwl amdanat ti,  
Yn siarad â thi mor llonydd,  
Gan mai poster ar y wal wyt ti  
Yn edrych yn ôl arnaf i.

*Catrin Edwards*

Eistedd hefo'n gilydd  
Hwb unrhyw boen na dagrau  
Anghofio am unrhyw uffern:  
Fy nghathod annwyl a finnau.

*Kailey Hughes*